

Cynllun Cydraddoldeb Strategol Coleg Gwent



2018/19 i 2022/23

CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2018/19 – 2022/23

Rydym yn falch o gael cyflwyno Cynllun Cydraddoldeb Strategol Coleg Gwent 2018/19 i 2022/23.

Cydnabyddwn bwysigrwydd mewnbllannu cydraddoldeb a hybu buddion amrywiaeth ar draws y coleg ym mhopeth a wnawn ac rydym wedi ymrwmo'n gadarn i groesawu a chefnogi dysgwyr a staff o amrywiaeth o gefndiroedd gwahanol.

Pwrpas y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yma yw sicrhau bod Coleg Gwent yn gweithredu yn defnyddio sensitifrwydd at wahaniaethau rhyw, hil, anabledd, tueddfryd rhywiol, ailbennu rhywiol, oedran, crefydd neu gred, statws beichiogrwydd/mamolaeth, ffordd o fyw, cefndir cymdeithasol, mamwlad, iaith neu unrhyw grwpiau eraill mewn cymdeithas.

Cydnabyddwn fod gennym ddyletswydd i sicrhau bod pob dysgwr a staff yn cael y cyfle i gyflawni eu potensial llawn ac ymdrechwn i sicrhau ein bod yn cyfarfod amrywiol gefnogaeth, addasiadau a gofynion y bobl hynny y mae gennym gyfrifoldeb drostynt.

Mae'r Coleg yn cydnabod bod rhai grwpiau'n profi gwahaniaethu mewn cymdeithas, ac mae'n ymrwymedig i herio gwahaniaethu o bob math trwy sicrhau bod gan gydraddoldeb ac amrywiaeth broffil uchel yn amgylchedd y Coleg a bod y Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd yma yn canolbwyntio ein sylw ar nifer o amcanion lefel uchel, llyfn wedi'u tanategu gan ymrwymiad oddi wrth yr Uwch Dîm Rheoli i sicrhau bod y rhain yn cael eu cyflawni.

Ymdrechwn i fod yn gymuned oddefgar lle mae pawb yn derbyn y gwahaniaethau rhwng unigolion ac yn gwerthfawrogi'r manteision ddaw i'r Coleg o amrywiaeth. Rydym yn gweithio'n gadarnhaol i hybu cydraddoldeb cyfle, gan adnabod ein bod yn gweithredu mewn cymdeithas gymhleth ac amlweddog.

Mae gennym lawer i fod yn falch ohono yn yr hyn yr ydym eisoes wedi'i gyflawni. Fodd bynnag, sylweddolwn fod yn rhaid i ni barhau i adeiladu ar ein cyflawniadau i wella ymhellach brofiadau pob dysgwr, yr holl staff a'r holl bobl sy'n dod i gysylltiad â Choleg Gwent.

**Cadeirydd Bwrdd Llywodraethu
Coleg Gwent**

**Pennaeth a Phrif Weithredwr
Coleg Gwent**

Mynegai

	Tudalen
Ynglŷn â'r Coleg	4
Gweledigaeth, Cenhadaeth a Blaenoriaethau	
Strategol	5
Y Gyfraith	6
Sut mae'r Coleg yn Bwriadu Cyflwyno'r	
Dyletswyddau	7
Egwyddorion ac Ymddygiadau	7
Meysydd Blaenoriaeth	8
Nodau Cydraddoldeb Strategol	9
Nod - Casglu Data	10
Sut y byddwn yn cyflwyno'r Nodau casglu data	10
Nod - Codi Ymwybyddiaeth	11
Sut y byddwn yn cyflwyno'r Nodau Ymwybyddiaeth	11
Nod - Mewnblannu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	14
Sut y byddwn yn cyflwyno Cydraddoldeb ac	
Amrywiaeth	14
Amllder Cyfarfodydd	17
Data ac Adroddiadau - Dysgwr	18
Data ac Adroddiadau Myfyrwyr a Staff	21

1. Ynglŷn â'r Coleg

Coleg Gwent yw un o'r colegau mwyaf ac un o'r rhai sy'n perfformio orau yng Nghymru, gan ddarparu ystod eang o gyrsiau academaidd a galwedigaethol. Yn cyflwyno dysgu llawn amser, rhan amser a seiliedig ar waith, rydym yn cofrestru tua 19,000 o fyfyrwyr bob blwyddyn ac yn cyflogi tua 1,500 o staff ar draws meysydd dysgu a chefnogaeth fusnes. Mae'r Coleg wedi ymrwmo i ddarparu amgylchedd lle mae pawb yn cael ei werthfawrogi fel unigolyn, a lle y gall myfyrwyr a staff weithio, dysgu a datblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth mewn amgylchedd o urddas a pharch.

Mae'r Coleg wedi parhau i wella ei ddarpariaeth yn defnyddio tueddiad esgynnol cryf a pharhaus mewn canlyniadau ar draws pob lefel dros y 5 mlynedd ddiwethaf. Agorodd Parth Dysgu hynod fodern Blaenau Gwent ym mis Medi 2012, sy'n cynnig addysg bellach i ddysgwyr ym Mlaenau Gwent. Rydym ar hyn o bryd yn gweithio mewn partneriaeth â'n Hawdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru i gyflwyno cynigion ar gyfer Canolfan Ôl-16 newydd yn Nhorfaen, cyfleusterau newydd yn ein Campws ym Mrynbuga a hefyd Ardal Wybodaeth Casnewydd mewn partneriaeth â Phrifysgol De Cymru a Chyngor Dinas Casnewydd.

Mae'r Pennaeth yn gosod cyfeiriad clir ar gyfer y coleg ac yn rhoi blaenoriaeth uchel ar osod y dysgwr ynghanol holl weithgaredd y coleg.

Mae'r data cyfradd llwyddiant a gynhyrchir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer pob coleg yng Nghymru yn dangos bod Coleg Gwent wedi parhau fel un o'r colegau sy'n perfformio orau o ran canlyniadau dysgwyr yng Nghymru am y cyfnod o dair blynedd 2014-2017 (ffynhonnell: Adroddiad Canlyniadau Dysgwyr AdAS 2016/17).

Mae'r Coleg mewn sefyllfa gyllidol gref, ac yn cyflwyno gwarged gweithredol o £2.6m am 2016/17 ac mae rhagfynegiad o £0.9m ar gyfer 2017/18.

Mae rheolaeth adnoddau effeithiol yn caniatáu i ni ail-fuddsoddi mewn adnoddau ar gyfer staff a dysgwyr ac mae ein strategaeth gyllidol yn gosod allan ein cynlluniau i barhau i gryfhau sefyllfa ein mantolen er mwyn galluogi buddsoddiad i'r dyfodol mewn prosiectau strategol allweddol yn Nhorfaen a Dinas Casnewydd.

Mae cymeriad addysgol y Coleg, fel y pennir ef gan y Pennaeth a'r Gorfforaeth, yn dylanwadu ar gyfeiriad strategol y sefydliad i gael ei gydnabod fel coleg rhagorol sy'n rhoi grym i ddysgwyr ac yn creu ffyniant yn ein cymunedau.

2. Gweledigaeth, Cenhadaeth a Blaenoriaethau Strategol

Gweledigaeth

- Y Coleg i'w Ddewis

Cenhadaeth


- Gwella Cyfleoedd Bywyd
- Rhagoriaeth Addysgol
- I Bawb

Blaenoriaethau Strategol

- Bydd pob dysgwr yn cyflawni ei botensial llawn
- Bydd pob dysgwr yn profi addysgu ac asesu rhagorol
- Bydd pob dysgwr yn derbyn gofal, arweiniad a chefnogaeth ardderchog
- Bydd y coleg yn darparu arweinyddiaeth a llywodraethu rhagorol ar bob lefel
- Bydd y coleg yn sicrhau dyfodol cynaliadwy

2.1 Gwerthoedd

Mae twf a chynaliadwyedd y Coleg i'r dyfodol yn seiliedig ar y pedwar gwerth a rennir ac ymddygiadau cysylltiedig sy'n arwain ein holl weithgareddau. Mae'r Cod Ymddygiad yn disgrifio sut yr ydym yn defnyddio'r gwerthoedd a'r ymddygiadau hyn yn ymarferol pob dydd. Mae'n esbonio i'n rhanddeiliaid ein hymroddiad a'n disgwyliad ac yn rhoi arweiniad i'n gweithwyr cyflogedig a phawb sy'n gweithio ar ein rhan.



2.2 I bwy mae'r Polisi yn Gymwys?

Mae'r polisi hwn yn gymwys i bob safle a ddefnyddir gan Goleg Gwent a holl aelodau'r gymuned Coleg a'r rhanddeiliaid.

3. Y Gyfraith

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi amddiffyniad rhag gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth lle bo hynny'n gysylltiedig â nodweddion penodol, a elwir yn nodweddion a ddiogelir. Mae dyletswyddau cydraddoldeb penodol ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gofyn i gyrff cyhoeddus gynhyrchu Cynllun Cydraddoldeb Strategol sy'n gosod eu hamcanion cydraddoldeb â chyfeiriad at y nodweddion a ddiogelir dros gyfnod cynllunio o bedair blynedd.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cynnig amddiffyniad i bobl sydd â'r nodweddion a ddiogelir canlynol.

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Beichiogrwydd/mamolaeth
- Hil
- Rhyw (yr unigolyn)
- Tueddfryd rhywiol
- Crefydd neu Gred
- Priodas a phartneriaeth Sifil

Mae'r Ddeddf yn esbonio bod rhoi ystyriaeth ddyledus i symud cydraddoldeb ymlaen yn cynnwys:

- cael gwared â neu leihau anfanteision a brofir gan bobl oherwydd eu nodweddion a ddiogelir;
- cymryd camau i gyfarfod anghenion pobl o grwpiau a ddiogelir lle bo'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill;
- annog pobl sydd â nodweddion a ddiogelir i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill lle mae eu cyfraniad yn anghymesur o isel.

Mae'r Ddeddf yn disgrifio meithrin perthnasoedd da fel mynd i'r afael â rhagfarn a hybu dealltwriaeth rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd a ddiogelir a'r rheiny nad ydynt. Gallai diwallu'r ddyletswydd olygu trin rhai pobl yn fwy ffafriol nag eraill, cyn belled nad yw hyn yn mynd yn groes i ddarpariaethau eraill o fewn y Ddeddf, sef:

- cynnal a chyhoeddi asesiadau effaith yn dangos sut mae ei bolisïau a'i arferion cyfredol ac arfaethedig yn effeithio ar allu'r sefydliad i gydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol;
- ar sail flynyddol, casglu a chyhoeddi data gweithwyr cyflog penodol trwy gyfeirio at nodweddion a ddiogelir;
- hybu dealltwriaeth gweithwyr cyflog o'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol.

4. Sut mae'r Coleg yn bwriadu cyflwyno'r Dyletswyddau

Mae gan y Coleg Grŵp Llywio Amrywiaeth a'u cyfrifoldeb hwy yw mewnbllannu egwyddorion y Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus. Er mwyn sicrhau llwyddiant, bydd y pwyllgor yn ymwneud â grwpiau ar draws y coleg lle y gellir trafod yn gyson broffil materion cydraddoldeb.

Mae'r Coleg wedi ymwneud yn ymarferol gyda dysgwyr a staff mewn nifer o ffyrdd ac yn benodol trwy:

- Fforymau Dysgwyr y Pennaeth a gweithgareddau eraill Llais y Dysgwr
- Undeb Myfyrwyr Coleg Gwent
- Gweithgareddau Grŵp Gwasanaethau Dysgwyr (LSG)
- Cyfarfodydd Iechyd a Diogelwch a Grŵp Cynladwyedd a Champws
- Arolwg Ymrwymiad Staff
- Teithiau cerdded o amgylch y Campws
- Adroddiad Hunanasesiad (SAR)
- Grŵp Llywio'r Iaith Gymraeg
- Cydbwyllgor Ymgynghorol
- Cyfarfodydd rheoli/TU
- Colegau Cymru

Cydnabyddwn y gallwn wneud mwy i sicrhau bod amrywiaeth yn nodwedd reolaidd mewn trafodaeth yn y cyfarfodydd yma ac mae hyn yn cael ei gydnabod yn ein gweithredoedd i symud ymlaen.

Mae'r Coleg ar hyn o bryd yn coladu data ar:

- Broffil staff a gwybodaeth gefnogol
- Proffil dysgwr a gwybodaeth gefnogol

5. Egwyddorion ac Ymddygiadau

Bydd cymuned y Coleg yn:

- trin ei gilydd ag urddas a pharch;
- creu amgylchedd cynhwysol i ddysgu a gweithio sy'n cefnogi perthnasoedd cadarnhaol ac yn herio rhagfarn, anoddefgarwch a gwahaniaethu yn ei holl ffurfiau; a
- sicrhau bod pob dysgwr neu ddarpar ddysgwr, aelod staff ac ymwelydd, yn cael eu trin yn deg ac na wahaniaethir yn eu herbyn.

Bydd y Coleg yn:

- cyhoeddi adroddiad gwybodaeth cydraddoldeb bob blwyddyn ac yn gosod amcanion cydraddoldeb pob pedair blynedd;
- monitro'r amcanion a ddiffinnir yn y cynllun gweithredu cydraddoldeb ac amrywiaeth bob tymor;

- hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth gyfathrebu gyda staff, y dysgwyr, y cyhoedd a phartneriaid;
- cefnogi ystod o weithgareddau pob blwyddyn i ddathlu digwyddiadau cydraddoldeb allweddol, gwyliau crefyddol a digwyddiadau'r Iaith Gymraeg a Diwylliant;
- cwblhau Asesiadau Effaith Cydraddoldeb i asesu effaith polisiâu i helpu atal anghydraddoldeb;
- cyflwyno mentrau gweithredu cadarnhaol lle bo tystiolaeth o fethiant i ddiwallu'r egwyddorion a'r amcanion;
- annog dysgwyr a staff i ddatgelu'n ddiogel unrhyw anableddau neu anghenion eraill yn ymwneud â 'nodweddion a ddiogelir' a allai fod ganddynt ac iddynt hwy wybod y byddant yn cael cefnogaeth;
- storio data yn unol â chanllawiau data cyfredol gan gynnwys blaenoriaethau Iaith Gymraeg ar gyfer staff a dysgwyr; a
- darparu gweithdrefnau cefnogi a chwyno i gefnogi'r bobl hynny sydd wedi tystio i neu brofi gwahaniaethu.

6. Ffynhonnell Gwybodaeth

Y wybodaeth a ddefnyddiwyd i baratoi'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yma yw'r data myfyrwyr a wiriwyd ar gyfer 2016/2017 a data staff ar gyfer 2016/17.

7. Ymgynghoriad

Wrth baratoi'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2018/19 i Ebrill 2022/23 yma, cynhaliwyd ymgynghoriad â:

- y Corff Llywodraethu;
- y Tîm Rheoli Corfforaethol;
- y Grŵp Llywio Amrywiaeth;
- Undebau (UCU, Unsain, AMiE);
- staff a myfyrwyr

8. Meysydd Blaenoriaeth

Mae'r meysydd canlynol yng Ngholeg Gwent wedi cael eu hadnabod fel y rhai mwyaf arwyddocaol o ran cydraddoldeb a dyletswyddau cyffredinol. Yn fras, y rhain yw:

- i. Cwricwlwm ac Ansawdd
- ii. Gwasanaethau a Chefnogaeth i'r Dysgwr
- iii. Adnoddau Dynol
- iv. Amgylchedd Ffisegol a Chynaliadwyedd
- v. Caffaeliad
- vi. Marchnata
- vii. TGCh
- viii. Grŵp Llywio'r Iaith Gymraeg
- ix. Gwent Commercial /Training Ltd

9. Myfyrdodau ar a gwersi a ddysgwyd o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol cyntaf, 2012-16

Dyma'r ail Gynllun Cydraddoldeb Strategol, yn adeiladu ar y Cynllun am y cyfnod Ebrill 2010 i Ebrill 2016 ac er cael rhai llwyddiannau, mae'r adolygiad wedi amlygu nifer o gyfleoedd i adolygu a diweddarau'r amcanion sydd eu hangen i sicrhau gwelliant pellach.

Ffurfiwyd grŵp llywio newydd bellach ac mae hwn eisoes wedi adnabod bod ymwybyddiaeth o'r strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar draws y Coleg yn isel. Mae gwaith bellach yn digwydd i fynd i'r afael â'r diffygion a chryfhau'r ffocws yn unol â'r nodau strategol. Caiff yr amcanion a'r gweithredoedd eu cynnwys o fewn y ddogfen strategaeth hon.

Adnabyddir bod cefnogaeth ragorol i holl fyfyrwyr Coleg Gwent ac mae'r holl staff a'r Llywodraethwyr yn gyfredol yn derbyn Hyfforddiant Amrywiaeth bob dwy flynedd. Bydd hyfforddiant pellach yn cael ei ddarparu i'r Grŵp Llywio Amrywiaeth a'r Llywodraethwyr o fewn y 12 mis nesaf i adfywio ymwybyddiaeth o'r Ddyletswydd Sector Cyhoeddus.

10. Nodau Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2018/19-2022/23

Mae'r nodau strategol lefel uchel canlynol wedi eu hadnabod, a byddant yn sianelu ffocws y sylw i 3 maes allweddol, a fydd, os ceir llwyddiant, yn symud y coleg ymlaen yn gadarnhaol.

Y nodau yw

Casglu data, monitro a gweithredu er mwyn 'dathlu neu wella'

Codi ymwybyddiaeth

Mewnblannu

Cefnogir y Strategaeth gan y Cynllun Gweithredu, a fydd yn cael ei adolygu a'i adfywio yn rheolaidd.

10.1 Casglu Data - Amcanion Allweddol

Nod	Amcanion	Cyfrifoldeb
Casglu data, monitro a chynllunio gweithredu priodol	<ol style="list-style-type: none"> Bydd y data cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cipio'r wybodaeth sydd ei hangen i alluogi'r Coleg i adnabod tueddiadau a pha mor dda y mae'n cyfarfod ei nodau a'i amcanion. Pob Rheolwr i sicrhau bod eu campysau a'u gweithrediadau yn casglu data ystyrion fel yr adnabuwyd gan y Grŵp Llywio Amrywiaeth fel y gellir adnabod a dathlu llwyddiannau a hefyd meysydd sy'n dangos tueddiadau llai ffafriol. 	Grŵp Llywio Amrywiaeth

10.1.1 Sut y byddwn yn cyflwyno hyn...

Pwnc	Gweithredu	Llinell amser	Cyfrifoldeb
Data	Y Grŵp Llywio Amrywiaeth i adolygu'r data cyfredol a gofnodwyd ac adnabod unrhyw newidiadau sydd eu hangen	Medi 2018	Grŵp Llywio Amrywiaeth.
Data	Pob Rheolwr i sicrhau bod eu Campysau a'u Gweithredoedd yn casglu'r data a ofynnir amdano gan y Grŵp Llywio Amrywiaeth	Medi 2018	Cyfarwyddwyr a Rheolwyr
Data	TGCh i gefnogi cipio data yn defnyddio arfau adrodd effeithlon	Medi 2018	Cyfarwyddwr TGCh
Data Llywodraethwyr	Adolygir y casglu data ar gyfer Llywodraethwyr a bydd meini prawf casglu newydd yn cael eu cymhwyso o'r flwyddyn academaidd 2018/19.	Medi 2018	Swyddog Llywodraethu
Adolygiad Data	Y Grŵp Llywio Amrywiaeth i adolygu'r data yn dymhorol ac adnabod meysydd allweddol i'w dathlu neu fynd i'r afael â nhw er mwyn gwella.	Medi 2018 ymlaen	Grŵp Llywio Amrywiaeth.

10.2 Codi Ymwybyddiaeth o Gydraddoldeb ac Amrywiaeth - Amcanion

Nod	Amcanion	Cyfrifoldeb
Codi ymwybyddiaeth	<ol style="list-style-type: none"> Bydd holl aelodau'r staff, Llywodraethwyr a Phartneriaid yn ymwybodol o ymrwymiad y coleg i gydraddoldeb ac amrywiaeth a bydd pob gweithrediad yn cefnogi'r mentrau priodol. Pob rheolwr i arddangos yn weledol ymroddiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a'r iaith Gymraeg i staff, dysgwyr, ymwelwyr, cyflenwyr a'r cyhoedd yng nghwrs eu campws neu eu gweithgaredd gweithredol. 	Uwch Dim Rheoli Corfforol a Rheolwyr

Crynowyd y nod strategol i'r amcanion lefel uchel canlynol. Caiff y rhain eu torri i lawr yn weithredoedd a fydd yn cyflwyno'r amcanion.

10.2.1 Sut y byddwn yn cyflwyno hyn...

Pwnc	Gweithredu	Llinell amser	Cyfrifoldeb
Denu staff a recriwtio	<p>Byddwn yn chwilio am ffyrdd i gynyddu recriwtio staff o gefndiroedd ethnig yn arbennig yng Nghampws Dinas Casnewydd trwy sefydlu cysylltiadau â chymunedau a grwpiau fydd efallai'n medru annog ymgeiswyr o sectorau sy'n cael eu tangynrychioli.</p> <p>Yn yr un modd byddwn yn meithrin yr un ymagwedd ar gyfer ymgeiswyr anabl, gan weithio'n agos â Remploy.</p> <p>Byddwn yn adolygu sut y gallem fynd i'r afael â'r anghydbwysedd cyfredol o ran staff benywaidd a gwrywaidd.</p>	Medi 2018	AD Marchnata Cyfarwyddwyr Campws
Proffil Oedran Staff a Dosbarthiad	<p>Mae'r rhifau yn dangos tra bod profiad yn werthfawr ym mhob rôl yn y Coleg, gallai fod cyfle i gymryd camau i fynd i'r afael â'r anghydbwysedd oedran dros bob swyddogaeth yn y Coleg.</p> <p>Mae dros 63.7% o'r staff dros 40 mlwydd oed, ac yn codi i 80% yn y boblogaeth Reolaethol.</p> <p>AD a Rheolwyr i ystyried plattfformau priodol lle y gall ymgeiswyr posibl o</p>	Ion 2019	AD

	bob oedran weld yr hysbysebion swyddi.		
Dysgu a Datblygiad Staff	Byddwn yn sicrhau bod yr hyfforddiant Amrywiaeth newydd ar-lein ar gael i'r holl staff a Llywodraethwyr a bod hwn yn cael ei gwblhau.	Erbyn diwedd 2019	AD
Contractau Gwaith Hyblyg	Byddwn yn atgoffa staff o argaeledd gweithio hyblyg i bob aelod o staff, yn ddynion a merched.	Tach 2018	Cyfarwyddwr AD
Achrediad Allanol	Byddwn yn cyflawni ein gwobr Arian Hyder o ran Anabledd (yn dilyn yr Efydd)	Erbyn 2020	AD
Recriwtio Dysgwyr	Bydd y Cynorthwyr IAG yn derbyn hyfforddiant i sicrhau eu bod yn medru ystyried pob ymgeisydd yn ôl eu rhinweddau unigol ac yn cydweddu eu goliau gyrfa unigol i raglenni gwaith priodol.	2018/19	Gwasanaethau Cwsmer y Rheolwyr
Recriwtio Dysgwyr	Bydd Polisi Mynediad a gweithdrefnau ar gyfer derbyniad 2018/19 yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau i sicrhau ei fod yn dangos tryloywder llwyr mewn penderfyniadau recriwtio a ffocws ar sicrhau bod pob dysgwr yn cael ei gydweddu'n briodol i raglen waith addas.	2018/19	Gwasanaethau Cwsmer y Rheolwyr
Cynefino Dysgwyr	Caiff y Rhestr Wirio Cynefino ar gyfer 2018/19 ei hadolygu a'i diweddarau i sicrhau bod dysgwyr yn derbyn profiadau priodol sy'n eu cynorthwyo i ddeall pwysigrwydd trin pawb â pharch.	2018/19	DLSS
Llais y Dysgwr	Bydd Hyfforddiant Cynrychiolydd Dysgwr ar gyfer 2018/19 yn cael ei adolygu i sicrhau bod Swyddogion SU, Cynrychiolwyr Dosbarth, Llysgenhadon Myfyrwyr, ac yn y blaen, yn medru cefnogi dysgwyr wrth iddynt ddeall amrywiaeth a phwysigrwydd trin pawb â pharch.	2018/19	Profiad Dysgu'r Rheolwyr
Lles y Dysgwr	Bydd yr holl gyfeiriadau diogelu yn cynnwys nodweddion Rhyw (yr unigolyn), Ethnigrwydd, Oedran ac Anabledd, a fydd yn cael eu hadrodd i Bwyllgor Diogelu'r coleg bob tymor	Ion 2019	DLSS
Llais y Dysgwr	Llais y Dysgwr: Gwneir dadansoddiad o Gynrychiolwyr Dysgwyr 2017/18, er mwyn sefydlu'r cymysgedd o Ryw (yr unigolyn), Ethnigrwydd, Oedran ac Anabledd. Wedyn ffurfir cynllun gweithredu i	Ion 2019	Profiad Dysgu'r Rheolwyr

	sicrhau bod cydbwysedd nodweddion yn bresennol.		
TGCh	Sicrhau bod y Ddesg Gymorth a'r dudalen We gysylltiedig yn amlygu argaeledd cefnogaeth ar gyfer y rheiny sydd angen addasiadau rhesymol	Erbyn Rhag 2018	Cyfarwyddwr TGCh
Mentrau a Digwyddiadau	Gweithio gyda chyd-drefnwyr digwyddiadau i hybu a chefnogi cydraddoldeb ac effaith amrywiaeth.	O Fedi 2018/19	Cyfarwyddwyr Campws Marchnata
Cyfathrebu	CMT, Cyfarwyddwyr a Marchnata i sicrhau bod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu hystyried ym mhob cyfathrebiad. Byddwn yn cynhyrchu deunyddiau marchnata a chyhoedduswydd sy'n hybu amrywiaeth i gynnwys cymysgedd o nodweddion Rhyw (yr unigolyn), Ethnigrwydd, Oedran ac Anabledd, i sicrhau nad oes unrhyw nodweddion yn cael anfantais.	O 2018/19	Cyfarwyddwyr Campws Marchnata
Rheolwyr/staff a Phwyllgorau Dysgwyr	Byddwn yn sicrhau y rhoddir amlygrwydd i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth ar agendâu cyfarfodydd a bod gweithredoedd yn cael ei adnabod a'i ddilyn. Y Grŵp Amrywiaeth i fod yn gyfrifol am hybu ymwybyddiaeth bod Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn cael eu hystyried ym mhob cyfarfod allweddol.	O Fedi 2018	Uwch Dîm Rheoli'r Coleg

10.3 Mewnblannu amcanion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Nod	Amcanion	Cyfrifoldeb
Mewnblannu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	<ol style="list-style-type: none"> Bydd pob gweithrediad yn hybu ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth o fewn eu timau fel bod hyn yn weledol, yn amlwg a bod cadw at hyn yn dod yn beth arferol. Yr holl reolwyr i sicrhau bod eu campysau a'u gweithrediadau yn cyflwyno a chynnal mentrau sy'n dangos ymrwymiad parhaus i gefnogi ac annog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth 	Holl reolwyr a staff

10.3.1 Sut y byddwn yn cyflwyno hyn...

Pwnc	Gweithredu	Llinell amser	Cyfrifoldeb
Recriwtio	Sicrhau bod cyfleoedd recriwtio a hyrwyddo yn hygyrch i grwpiau anabl ac ethnig a allai fod wedi'u tangynrychioli yn y coleg. Adeiladu perthnasoedd â sefydliadau allanol perthnasol fel Remploy, Stonewall a grwpiau ethnig lleol.	2018/19	AD
Recriwtio	Adnabod camau i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth staff o gefndiroedd heblaw am wyn yn ein Campws Dinas Casnewydd.	2018/19	AD Cyfarwyddwr Campws a thîm Rheoli Casnewydd
Swydd Ddisgrifiadau a Manylebau Swyddi	Adolygu a diweddarau proffiliau rôl i sicrhau nad ydynt yn gwahaniaethu	2018/2019	AD
Awdit Tâl/Bwlch Tâl Rhwng y Rhywiau	Adolygu Cydraddoldeb Tâl yn flynyddol	Parhaus	AD
Dathlu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	Er mwyn codi ymwybyddiaeth bellach ac annog staff i deimlo'n ddiogel wrth fod yn agored am eu blaenoriaethau, byddwn yn trefnu cyfathrebu neu ddigwyddiad blynyddol er mwyn cynnig cefnogaeth ac i atgoffa staff y Coleg am yr ymrwymiad i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth.	2019	Cyfarwyddwyr Campws a Chyfarwyddwr AD

Polisiâu a Phrosesau AD	Sicrhau bod polisiâu yn adlewyrchu ein hymrwymiad i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth pan fyddant yn cael eu hadolygu a'u diweddarau, a gweithio gydag Undebau Llafur i greu polisiâu i adlewyrchu arfer orau.	Parhaus	AD
Dysgu a Datblygiad Staff	Sicrhau bod hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar gael i'r holl staff a Llywodraethwyr a bod hyn yn cael ei gwblhau.	Parhaus	AD
Dysgu a Datblygiad Staff	Cyflwyno'r hyfforddiant gorfodol ychwanegol canlynol. <ul style="list-style-type: none"> • Rheoli Amrywiaeth (Rheolwyr) • Addasiadau Rhesymol ar gyfer Myfyrwyr (Penaethiaid Ysgol) • Hyfforddiant Urddas yn y Gwaith (yr holl staff) 	2019	AD
Ymrwymiad Gweithwyr Cyflog/Cyfathrebu Staff	Sicrhau y gweithredir yn gadarnhaol, e.e. Arolygon Ymrwymiad Gweithwyr Cyflog a chyfathrebu mewn cysylltiad i hybu polisiâu AD, ffynonellau cefnogaeth ac ati.	Parhaus	AD
Recriwtio Dysgwyr	Sicrhau bod model recriwtio newydd y Coleg yn cael ei weithredu'n gyson ar draws pob campws fel bod pob ymgeisydd yn derbyn yr un lefel o gyfle ar gyfer cofrestru ar y cwrs cywir, a hynny y tro cyntaf.	2018	DLSS
Lles Dysgwyr	Bydd LSG yn sicrhau bod ceisiadau dysgwyr am weithgareddau cyfoethogi sy'n cefnogi dealltwriaeth well o faterion amrywiaeth yn cael eu darparu pan fo hynny'n bosibl.	2018/19	DLSS
Lles Dysgwyr	Bydd pob cais am grant a chanlyniadau yn cynnwys nodweddion Rhyw (yr unigolyn), Ethnigrwydd, Oedran ac Anabledd, i sicrhau nad yw unrhyw nodweddion dan anfantais.	Medi 2018	Gwasanaeth Cwsmer y Rheolwyr
Lles Dysgwyr	Bydd pob cynw yn ffurfiol yn cynnwys nodweddion Rhyw (yr unigolyn), Ethnigrwydd, Oedran ac Anabledd, i sicrhau nad oes unrhyw nodweddion dan anfantais.	Medi 2018	DLSS

TGCh	Sicrhau bod TGCh yn cadw'n gyfredol â'r arweiniad diweddaraf ar arfer orau o ran dylunio tudalennau gwe neu addasiadau i ddefnyddwyr digidol eu defnyddio er mwyn cael yr effaith orau.	Erbyn Medi 2019	Cyfarwyddwr TGCh
Iechyd, diogelwch, cynladwyedd a lles. Staff	Bydd pob polisi yn adlewyrchu ein hymroddiad i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth i sicrhau nad oes unrhyw nodweddion dan anfantais.	Parhaus	Ystadau a Chyfleusterau
Ystadau a Chyfleusterau	Sicrhau y rhoddir ystyriaeth i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth ar agenda cyfarfod Pwyllgor Cynladwyedd y Coleg pan yn briodol a bod unrhyw weithredu a adnabyddir yn cael ei gwblhau	Parhaus	Ystadau a Chyfleusterau
Ystadau a Chyfleusterau	Gweithio'n agos gyda'r dysgwyr (h.y. trwy Fforymau Dysgwyr y Pennaeth, Desg Gymorth yr Ystâd, ac ati) i sicrhau bod nodweddion Rhyw (yr unigolyn), Ethnigrwydd, Oedran ac Anabledd yn cael eu hystyried gyda rheolaeth ein Hystâd a darparu amgylchedd dysgu diogel ac iach.	Medi 2018 a pharhaus	Ystadau a Chyfleusterau
Amgylchedd a chyfleusterau'r coleg	Sicrhau a blaenoriaethu mynediad i bawb yn cynnwys parcio i'r anabl, mynediad i mewn i ac o gwmpas adeiladau, lifftiau, ac arwyddion clir.	Parhaus	Ystadau a Chyfleusterau
Ystadau a Chyfleusterau	Sicrhau y rhoddir ystyriaeth lawn i ddarparu chyfleusterau i gefnogi'r bobl hynny sydd â chredoau crefyddol (h.y. ystafelloedd gweddi a Wudus)	Parhaus	Ystadau a Chyfleusterau
Ystadau a Chyfleusterau	Byddwn yn ceisio cefnogi prosiectau sy'n canolbwyntio ar faterion ynghylch Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (h.y. ymwneud â Sefydliad Leonard Cheshire a phrosiectau hunangymorth ILS, ac yn y blaen).	Medi 2018 a pharhaus	Ystadau a Chyfleusterau
Ystadau a Chyfleusterau	Sicrhau bod darpariaeth arlwyo'r Coleg yn diwallu ystod o anghenion dietegol i sicrhau cydraddoldeb ac amrywiaeth.	Parhaus	Ystadau a Chyfleusterau
Marchnata a deunyddiau cyhoeddusrwydd, yn cynnwys cyfryngau cymdeithasol ac	Bydd Marchnata yn gweithio gyda chyd-drefnwyr digwyddiad i hybu a chefnogi i sicrhau bod marchnata a deunyddiau	2019	Marchnata

arddangosfeydd cyhoeddus	cyhoedduswydd yn hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth. Bydd yn defnyddio sianelau cyfryngau digidol i hybu amrywiaeth Cefnogi AD wrth iddynt hybu ein statws Cyflogwr Cyfle Cyfartal		
Caffaeliad	Sicrhau mabwysiadu a chymhwyso prosesau sy'n hybu cydraddoldeb wrth ymwneud â chyflenwyr a chontractwyr.	2018/2019	Cyllid

11. Amllder Cyfarfodydd Grŵp Llywio Amrywiaeth

Cynhelir cyfarfodydd pob tymor.

12. Manylion Cyswllt

Cysylltwch â swyddfa'r Pennaeth am gopïau o'r ddogfen hon.

Gellir sicrhau fod y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016 ar gael mewn fformatau amgen.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Saesneg.

ADRODDIADAU DATA

Data Myfyrwyr

Rhoddir data am y canlynol:

- Cofrestru
- Cyfraddau Llwyddiant

O'r 1^{af} o Fedi 2018 byddwn hefyd yn cipio data ar:

- Geisiadau
- Presenoldeb
- Bodlonrwydd Myfyrwyr
- Cwynion
- Cyfeiriadau diogelu
- Blaenoriaeth Iaith

Cofrestru

Rhyw

(yr unigolyn)

Coleg Gwent	Rhyw	16/17	15/16	14/15
	Gwryw	53%	50%	50%
	Benyw	47%	50%	50%

BGLZ	Rhyw	16/17	15/16	14/15
	Gwryw	51%	51%	50%
	Benyw	49%	49%	50%

Crosskeys	Rhyw	16/17	15/16	14/15
	Gwryw	49%	48%	49%
	Benyw	51%	52%	51%

Casnewydd	Rhyw	16/17	15/16	14/15
	Gwryw	59%	54%	53%
	Benyw	41%	46%	47%

Brynbuga /Pontypŵl	Rhyw	16/17	15/16	14/15
	Gwryw	48%	43%	45%
	Benyw	52%	57%	55%

POBLOGAETH

Ar draws Cymru mae 49% o'r boblogaeth yn wrywaidd a 51% yn fenywaidd.

Ar draws y coleg mae'r rhaniad rhyw wedi newid o fod yn eithaf hafal i fwy o fyfyrwyr gwrywaidd ar draws y coleg cyfan. Fodd bynnag, yn Crosskeys a Brynbuga/Pontypŵl mae nifer y merched yn dal i fod yn uwch na nifer y dynion. Mae hyn yn bennaf oherwydd dylanwad y cwricwlwm sydd ar gael. Er enghraifft, mae gostyngiad mewn recriwtio dysgwyr i'r cwrs Gwallt a Harddwch wedi arwain at ostyngiad mewn dysgwyr benywaidd gan fod y maes pwnc hwn yn bennaf yn denu merched. Yn yr

un modd, y mae cynnydd mewn recriwtio i'r pynciau blaenoriaeth rhanbarthol Peirianeg, Adeiladu a TG wedi arwain at gynnydd mewn dysgwyr gwrywaidd.

Fel coleg, byddwn yn parhau i adolygu ffyrdd y gallwn ddefnyddio modelau rôl a strategaethau i hybu pynciau penodol a grwpiau o ryw penodol, lle mae'r rhain wedi'u tangynrychioli.

Oedran

Coleg Gwent	Oedran	16/17	15/16	14/15
	16-19	63%	61%	57%
	19+	37%	39%	43%

BGLZ	Oedran	16/17	15/16	14/15
	16-19	81%	81%	80%
	19+	19%	19%	20%

Crosskeys	Oedran	16/17	15/16	14/15
	16-19	81%	80%	79%
	19+	19%	20%	21%

Casnewydd	Oedran	16/17	15/16	14/15
	16-19	36%	35%	32%
	19+	64%	65%	68%

Brynbuga /Pontypŵl	Oedran	16/17	15/16	14/15
	16-19	67%	61%	54%
	19+	33%	39%	46%

Disgynnodd y gyfradd genedigaethau gyffredinol ar draws Cymru dros y blynyddoedd yn dilyn 1900 gan gyrraedd ei bwynt isaf yn 2002 cyn dechrau esgyn eto. Ond, mae'r gyfran o'r boblogaeth 16-18 mlwydd oed sy'n mynychu'r Coleg wedi cynyddu o 2%, sy'n gadarnhaol iawn. Bu gostyngiad mewn myfyrwyr dros 19 oed ar draws y coleg o 43% i 37%. Mae hyn yn debygol o fod oherwydd cynnydd mewn cyfleoedd cyflogaeth a hefyd newidiadau yn y cymysgedd o ddarpariaeth llawn amser a rhan amser a gynigiwyd gan y coleg, mewn ymateb i flaenoriaethau'r Llywodraeth. Bydd y Coleg yn parhau i gynnig ystod o gyrsiau sydd ar gael i bob grŵp oedran o fewn y sector Addysg Bellach.

Ethnigrwydd

Coleg Cyfan	Ethnigrwydd	16/17	15/16	14/15
	Gwyn	92%	93%	93%
	BME	8%	7%	7%

BGLZ	Ethnigrwydd	16/17	15/16	14/15
	Gwyn	98%	98%	98%
	BME	2%	2%	2%

Crosskeys	Ethnigrwydd	16/17	15/16	14/15
	Gwyn	97%	97%	96%
	BME	3%	3%	4%

Casnewydd	Ethnigrwydd	16/17	15/16	14/15
	Gwyn	82%	85%	86%
	BME	18%	15%	14%

Brynbuga /Pontypŵl	Ethnigrwydd	16/17	15/16	14/15
	Gwyn	98%	98%	98%
	BME	2%	2%	2%

Mae myfyrwyr BME yn adlewyrchu ychydig o dan 8% y boblogaeth myfyrwyr, â'r gyfran uchaf yn astudio ar Gampws Casnewydd, lle maent yn cynrychioli 18% o'r myfyrwyr. Mae ystadegau cenedlaethol yn nodi bod 4.5% o'r boblogaeth ar draws Cymru yn y cyfrifiad diwethaf yn 2011 wedi dweud eu bod o gefndir Du a Lleiafrif Ethnig:

Caerffili/Crosskeys	1.68%
Blaenau Gwent	1.62%
Torfaen/Pontypŵl	2.19%
Sir Fynwy /Brynbuga	1.97%
Casnewydd	10.15%

Mae pob campws gennym yn adlewyrchu'r dadansoddiad poblogaeth leol, â Chasnewydd yn rhagori ar yr ystadegau lleol yn arwyddocaol. Rydym yn annog ymgeiswyr o bob ethnigrwydd a byddwn yn parhau â'n hymagwedd cyfleoedd i bawb.

Anhawster Dysgu neu Anabledd

Coleg Cyfan	Anhawster Dysgu neu Anabledd	16/17	15/16	14/15
	Dim AD/A	86%	86%	92%
	Myfyriwr ag AD/A	14%	14%	8%

BGLZ	Anhawster Dysgu neu Anabledd	16/17	15/16	14/15
	Dim AD/A	85%	84%	95%
	Myfyriwr ag AD/A	15%	16%	5%

